

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mynydd Awel
Mold Business Park
Maes Gwern
Mold, Flintshire
CH7 1XN

T: 01352 757 604
F: 01352 700 291
E: info@westcoastenergy.co.uk
W: www.westcoastenergy.co.uk

21 Medi 2011

Annwyl Arglwydd Elis-Thomas

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd – Ymchwiliad i Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru

Cyfeiraf at eich llythyr dyddiedig 2 Awst 2011 ynglŷn â'r mater uchod ac mae'n bleser gennyf gyflwyno ymateb ar ran West Coast Energy Ltd yn ymwneud â'r materion sy'n ffurfio rhan o ystyriaethau'ch Pwyllgor. Byddem hefyd yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor pe baem yn cael gwahoddiad.

Cwmni datblygu ynni gwynt annibynnol a blaenllaw o Gymru yw West Coast Energy Ltd (WCE Ltd). Mae'r cwmni, a sefydlwyd yn 1996, wedi'i leoli yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Rydym yn weithredol ledled y DU ac yn ddiweddar rydym wedi ymestyn ein gweithrediadau i Ewrop hefyd. Mae WCE Ltd yn rhan o West Coast Group, sy'n cynnwys Atmos Consulting (cwmni ymgynghori amgylcheddol ac ynni adnewyddadwy), Low Carbon Energy Company (sy'n dylunio a gosod systemau ynni adnewyddadwy bach), WCE Polska (cwmni datblygu ffermydd gwynt ar y tir yng Ngwlad Pwyl) a WCE Network Services (gwasanaethau torri coed i'r gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu trydanol).

Ar hyn o bryd rydym yn gysylltiedig â datblygu systemau i gynhyrchu gwerth cannoedd o fegawatiau o ynni, a hyd yma mae wedi bod yn gysylltiedig â chaniatadau ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir gwerth dros 650MW. Mae'r cwmni wedi bod yn gysylltiedig â rhai o'r ffermydd gwynt cynharaf i gael eu caniatáu yng Nghymru, sef Cefn Croes ym Mhowys a Gwastadeddau'r Rhyl (ar y môr), yn ogystal â rhai mwy diweddar megis Tirgwynt, hefyd ym Mhowys.

Rydym yn rhoi pwys mawr ar gynnwys y gymuned yn ei gynigion ac mae wedi arloesi mewn rhoi cyfle i gymunedau lleol gael rhan-berchenogaeth mewn cynlluniau, megis cynllun Tyrbin Cymunedol Fintry yn Swydd Stirling yn yr Alban.

Mae pencadlys Grŵp WCE mewn eco swyddfa newydd bwrpasol gwerth £2M ar Barc Busnes yr Wyddgrug yn Sir y Fflint, Gogledd Cymru. Mae'r swyddfa hon eisoes wedi ennill sawl gwobr ac mae hefyd yn un o'r ychydig adeiladau a ariennir yn breifat yng Nghymru i ennill gradd 'Rhagorol' BREEAM am ei rinweddau amgylcheddol. Mae hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad WCE i fuddsoddi yng Nghymru. Mae dros 70 o weithwyr crefftus yn gweithio yn y swyddfa, sy'n arwydd o rôl WCE fel cyflogwr gweithwyr coler werdd yn y rhanbarth.



CERTIFICATE NO. 3179

Mae Cadeirydd WCE, Gerry Jewson, yn aelod o banel sector Ynni a'r Amgylchedd Llywodraeth Cymru.

Mae ein hymateb wedi'i rannu'n ddwy ran - A a B. Mae Adran A yn ymdrin â rhai o'r materion mwy cyffredinol, tra bod Adran B yn rhoi ymateb cryno i'r Cylch Gorchwyl a osodwyd ar gyfer yr Ymchwiliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd gennych unrhyw ymholiadau. Fodd bynnag, sylwch y byddaf ar wyliau am bythefnos o yfory ymlaen - bydd Jonathan Cawley ar gael i ateb unrhyw ymholiadau yn fy absenoldeb. Rhif ffôn a chyfeiriad e-bost Jonathan yw: 07827944664 / jonathan.cawley@westcoastenergy.co.uk

Yr eiddoch yn gywir

Steve Salt

Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu

ADRAN A: Ymateb WCE i'r ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio:**Cefndir cwmni West Coast Energy Ltd**

- 1.1 Cwmni datblygu ynni gwynt annibynnol a blaenllaw o Gymru yw West Coast Energy Ltd (WCE Ltd). Mae'r cwmni, a sefydlwyd yn 1996, wedi'i leoli yn yr Wyddgrug yng ngogledd Cymru ac mae'n weithredol ledled y DU ac yn ddiweddar mae wedi ymestyn ei weithrediadau i Ewrop hefyd. Mae WCE Ltd yn rhan o West Coast Group, sy'n cynnwys Atmos Consulting (cwmni ymgynghori amgylcheddol ac ynni adnewyddadwy), Low Carbon Energy Company (sy'n dylunio a gosod systemau ynni adnewyddadwy bach), WCE Polska (cwmni datblygu ffermydd gwynt ar y tir yng Ngwlad Pwyl) a WCE Network Services (gwasanaethau torri coed i'r gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu trydanol).
- 1.2 Ar hyn o bryd mae WCE Ltd yn gysylltiedig â datblygu systemau i gynhyrchu gwerth cannoedd o fegawatiau o ynni, a hyd yma mae wedi bod yn gysylltiedig â chaniatadau ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir gwerth dros 650MW. Mae'r cwmni wedi bod yn gysylltiedig â rhai o'r ffermydd gwynt cynharaf i gael eu caniatáu yng Nghymru, sef Cefn Croes ym Mhowys a Gwastadeddau'r Rhyl (ar y môr), yn ogystal â rhai mwy diweddar megis Tirgwynt, hefyd ym Mhowys.
- 1.3 Mae WCE Ltd yn rhoi pwys mawr ar gynnwys y gymuned yn ei gynigion ac mae wedi arloesi mewn rhoi cyfle i gymunedau lleol gael rhanberchenogaeth mewn cynlluniau, megis cynllun Tyrbîn Cymunedol Fintry yn Swydd Stirling yn yr Alban. Mae nifer o bortffolios safleoedd presennol WCE bellach yn cynnig canran o berchenogaeth gymunedol a chyfran o'r elw. Mae West Coast Energy yn gweithredu fel asiant i gwmni datblygu Awel Newydd Cyf ar safle Tirgwynt ar hyn o bryd - sef consortiwm rhwng 15 o dirfeddianwyr lleol a cwmni RDC Developments Ltd.
- 1.4 Mae pencadlys Grŵp WCE mewn eco swyddfa newydd bwrpasol gwerth £2M ar Barc Busnes yr Wyddgrug yn Sir y Fflint, Gogledd Cymru. Mae'r swyddfa hon eisoes wedi ennill sawl gwobr ac mae hefyd yn un o'r ychydig adeiladau a ariennir yn breifat yng Nghymru i ennill gradd 'Rhagorol' BREEAM am ei rinweddau amgylcheddol. Mae hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad WCE i fuddsoddi yng Nghymru. Mae dros 70 o weithwyr crefftus yn gweithio yn y swyddfa, sy'n arwydd o rôl WCE fel cyflogwr gweithwyr coler werdd yn yr ardal leol.
- 1.5 Mae Cadeirydd WCE, Gerry Jewson, yn aelod o banel sector Ynni a'r Amgylchedd Llywodraeth Cymru.

2. Cyflwyniad: Yr angen am benderfyniadau positif, cyson ac amserol

- 2.1 Cred West Coast Energy mai'r prif ffactor sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd targedau ynni adnewyddadwy Cymru a sicrhau mewnfuddsoddiad yw darparu fframwaith polisi ynni a chynllunio positif a chyson yn y tymor canolig a'r hirdymor. Mae hyn yn rhoi hyder i fuddsoddwyr sy'n gwbl hanfodol i lwyddiant unrhyw Strategaeth Ynni yng Nghymru neu'r DU. Er ei fod yn bwnc dadl, tybir efallai y dylai'r haen sy'n gwneud y penderfyniadau (boed y Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn Llundain neu Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd) yn dod yn ail i wneud polisiau positif a chyson. Mae craffu'n fanwl ar gynnydd y gwaith o geisio cyrraedd y targedau hefyd yn ffactor allweddol.

2.2 Ni ellir diystyru pa mor argyfyngus yw'r broblem ynni adnewyddadwy os ydym am gyrraedd targedau 2020. Er enghraifft, fel arfer mae'r broses o ganfod safleoedd ffermydd gwynt i ddechrau cynhyrchu ynni yn cymryd tua 7 mlynedd i'w chwblhau. Gan hynny bydd y penderfyniadau a wneir nawr yn gwbl hanfodol os yw Cymru am gyrraedd ei tharged.

3. **Beth all fod yn rhwystr i fframwaith penderfynu positif, cyson ac amserol:**

3.1 Er bod llwyddiannau mawr wedi bod yn natblygiad ynni adnewyddadwy a ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru, gwelwyd rhai diffygion hefyd. Methwyd â chyrraedd targedau ynni adnewyddadwy 2010 ac mae ôl-groniad o waith i'w wneud er mwyn cyrraedd targedau 2020. Yn gyffredinol, mae'r fframwaith polisi presennol yn bositif ac yn cynnwys targedau uchelgeisiol, ond mae dryswch o hyd ymhlith datblygwyr ynni gwynt ar y tir, yn arbennig yn y canolbarth, ynghylch polisi ynni, cynhwysedd ardaloedd chwilio strategol, rôl bosibl safleoedd y tu allan i ardaloedd chwilio strategol ac mewn perthynas â chael rhwydwaith grid cadarn i gynnal datblygiadau.

3.2 Mae'r rhesymau dros hyn yn niferus a chymhleth ac yn cael eu tanategu gan ddiffyg cysondeb yn y fframwaith polisi. Mae'r rhestr isod yn tynnu sylw at rai o'r prif broblemau sy'n tanategu'r diffyg cysondeb a chyfarwyddyd:

- a) Yr angen i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ymgyngoreion statudol a datblygwyr weithio mewn modd 'cydgysylltiedig' er mwyn cyrraedd y targedau.
- b) Nid yw cynhwysedd a thargedau ffermydd gwynt ar y tir, boed y tu mewn neu du allan i ardaloedd chwilio strategol Nodyn Cyngor Technegol 8, bob amser yn amlwg. Mae hyn yn cael ei gymhlethu gan y gwrthdaro rhwng y Datganiad Polisi Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Cymru a Lloegr a'r polisi penodol ar gyfer Cymru sydd wedi hen ymsefydlu (Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 8). Mae'r targedau sydd wedi'u gosod mewn dogfennau megis Nodyn Cyngor Technegol 8 a Pholisi Cynllunio Cymru hefyd braidd yn amwys, gyda thargedau gwrthdrawiadol ar gyfer yr ardaloedd chwilio strategol e.e. ai 1.2GW, 1.8GW neu darged heb ei gadarnhau yw targed yr ardaloedd chwilio strategol? Nid yw'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn rhoi eglurhad na chyfarwyddyd pellach am y mater hwn. Hefyd mae targedau gwahanol i'w gweld yn Nodyn Cyngor Technegol 8 (2005), Polisi Cynllunio Cymru (2011) a Thrywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru (2008);
- c) Yr ansicrwydd ynghylch mater strategol allweddol mewn perthynas â datblygu grid yng Nghymru, gyda datganiadau anghyson gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r dull gweithio dewisedig. Bydd datblygiad amserol rhwydwaith grid digonol a fydd yn para i'r dyfodol yn allweddol er mwyn cyrraedd targedau 2020 a thu hwnt. Mae angen fframwaith polisi positif a chyson ar frys er mwyn medru darparu hyn.
- ch) Gall safleoedd y tu allan i ardaloedd chwilio strategol fod yn rhan hanfodol o'r ymdrech i gyrraedd y targedau ynni adnewyddadwy. Tybir y dylid datblygu mwy o hyblygrwydd mewn polisiau yn y DU, yng Nghymru ac ar lefel leol er mwyn galluogi safleoedd datblygu posibl i gyflwyno eu hunain. Mae targedau cynlluniau y tu allan i ardaloedd chwilio strategol yn aneglur i'r diwydiant ar hyn o bryd. A yw'r targed o 300MW (sy'n deillio o darged cyffredinol Cymru, sef 2GW o wynt ar y tir namyn y targed uwch disgwyliedig o

1.7GW a gynigir gan ardaloedd chwilio strategol) yn cynnwys prosiectau sydd eisoes wedi cael caniatâd o ddyddiad penodol? A yw'r targed yn bwriadu cynnwys cynlluniau o fewn 5km i ardaloedd chwilio strategol neu a yw'r cynlluniau hyn yn cael eu dosbarthu fel rhai sydd o fewn ardaloedd chwilio strategol at ddibenion targedau?

- d) Mae rhai awdurdodau lleol yn cynhyrchu polisiâu cynlluniau datblygu aneglur ac anghyson, ac ambell waith yn araf yn paratoi'r cynlluniau. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn fwy atebol am y modd y gallant gyfrannu'n bositif tuag at dargedau ynni adnewyddadwy 2020. Un enghraifft o'r modd y gall cyfarwyddyd polisi aneglur, ynghyd â safbwyntiau gwleidyddol cryf, gael effaith ar ddarparu ynni gwynt ar y tir yw Cynllun Datblygu Lleol drafft Cyngor Sir Gaerfyrddin. Un o feini prawf ei bolisi ynni gwynt ar y tir yw y dylai unrhyw dyrbin fod o leiaf 1.5km oddi wrth unrhyw eiddo preswyl. Er nad yw'r gofyniad hwn yn cydsynio â'r polisi cenedlaethol, gall ychwanegu at y cydbwysedd cynllunio pan fo cynllun ynni gwynt ar y tir yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Yn y pen draw, gallai hyn gynyddu'r risg i gynllun sy'n gydnaws â'r polisi cenedlaethol ond nad yw'n gydnaws â'r polisi lleol drafft a gallai hynny olygu bod y cynllun yn cael ei wrthod oherwydd polisi lleol gwallus.
- dd) Mewn rhai enghreifftiau, mae oedi sylweddol wedi bod gan fod atebion estynedig a hwyr wedi cael eu cyflwyno mewn ymgynghoriadau ar gyfer ceisiadau cynllunio e.e. rhwng ymgeisydd ac amryw o ymgynghoreion statudol ac anstatudol e.e. Awdurdod Prifffyrdd Lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Er enghraifft, cyflwynwyd prosiect Tirgwynt ym Mhowys ym mis Medi 2007 ond ni chafodd ei bennu tan fis Awst 2010. Nid Cyngor Powys fel yr Awdurdod Cynllunio oedd ar fai am y penderfyniad araf, ond yn hytrach yr oedi a achoswyd gan y Cyngor Cefn Gwlad a'r Awdurdodau Prifffyrdd ar lefel lleol a chenedlaethol a dynnodd eu gwrthwynebiadau dros dro yn ôl. Mae'n bosibl na fyddai'r oedi hwn wedi digwydd pe bai gweithlu digonol wedi bod ar gael i ddatrys problemau sy'n cael eu cydnabod fel rhai cymhleth.
- e) Gellir creu dryswch ac anghysondeb trwy gyhoeddi canllawiau cynllunio ar 2 haen h.y. ar lefel y DU trwy'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ac ar lefel Cymru trwy Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 8.
- f) Tybir bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gyrraedd y targedau a monitro'r cynnydd a wneir tuag at eu cyrraedd.
- 3.3 Nid yw pob un o'r rhwystrau uchod o reidrwydd yn dibynnu'n uniongyrchol ar p'un a yw'r caniatâd yn cael ei roi gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru - maent yn ymwneud yn bennaf â'r angen i gael cyngor polisi clir, cyson a phositif heb ystyried pa awdurdod sy'n gwneud y penderfyniad neu'r polisi. Fodd bynnag, gallai rôl bresennol y Comisiwn Cynllunio Seilwaith a Llywodraeth Cymru wneud pethau'n fwy cymhleth ac aneglur – mae hwn yn faes sy'n mynnu trafodaeth ac ystyriaeth bellach wrth greu fframwaith benderfynu adolygedig;
- 4. Goresgyn rhwystrau, cyflymu'r broses ddarparu a magu hyder ymhlith busnesau**
- 4.1 Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau uchod i gynhyrchu ynni adnewyddadwy'n llwyddiannus, rhaid cymryd sawl cam:

a) **Darparu hyblygrwydd o ran ffiniau ardaloedd chwilio strategol / ystyried diweddarau Nodyn Cyngor Technegol 8**

- Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 yn “dodi ei wyau i gyd yn yr un fasedg” o ran ynni gwynt ar y tir. Mae llwyddiant targedau ynni gwynt ar y tir yng Nghymru yn dibynnu fwyfwy ar ddarparu ardaloedd chwilio strategol yn llwyddiannus. Os bydd unrhyw un o'r safleoedd strategol hyn yn wynebu problemau yn eu darpariaeth, bydd llwyddiant targedau ynni adnewyddadwy Cymru yn cael eu heffeithio. Gan hynny, mae'n hanfodol creu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Er bod y polisi'n caniatáu safleoedd bach a chanolig (<25MW) y tu allan i ardaloedd chwilio strategol, nid yw'r fframwaith polisi ar gyfer cynigion tebyg bob amser yn glir nac yn bositif (efallai bod hyn i'w weld yn fwy difrifol ymhlith awdurdodau lleol yn arbennig).
- Er gwaetha'r gefnogaeth o blaid cadw'r ardaloedd chwilio strategol a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 8 ym Mholisi Cynllunio Cymru a gyhoeddwyd eleni, tybir fod Nodyn Cyngor Technegol 8 yn atal safleoedd cwbl addas a hynny yn syml gan nad yw'r ymarfer 'lefel uchel' dechreuol i ddatblygu'r dull gweithio gofodol yn Nodyn Cyngor Technegol 8 wedi dewis y safleoedd hyn. Mae'n bosibl y gallai mwy o hyblygrwydd yn y dull gweithio gofodol hwn 'ryddhau' mwy o botensial ynni adnewyddadwy;

b) **Dilyn esiampl Llywodraeth yr Alban**

- Mae'r Alban wedi mynd ati i ddefnyddio ynni adnewyddadwy, yn arbennig ynni gwynt ar y tir, yn gyflymach ac yn fwy llwyddiannus nag unrhyw ran arall o'r DU. Mae wedi cynyddu ei chyfran o ynni adnewyddadwy a chynhyrchu mewnfuddsoddiad sylweddol yn hynod llwyddiannus;
- Mae llawer o'r llwyddiant hwn wedi bod yn seiliedig ar:
 - Amgylchedd gwleidyddol, cynllunio a busnes positif;
 - Mae targedau uchelgeisiol ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy wedi cael eu cynyddu bob tro y nesawyd at y garreg filltir flaenorol e.e. cynyddwyd y targed o 50% o drydan yn dod o ynni adnewyddadwy erbyn 2020 i 80% (ym mis Tachwedd 2010) ac fe'i cynyddwyd eto eleni i 100% o drydan yn dod o ynni adnewyddadwy;
 - Gwell hyblygrwydd daearyddol – heb fod dan orfodaeth ardaloedd chwilio strategol fel yng Nghymru;
 - Mae'r awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull gweithio sy'n fwy positif yn gyffredinol tuag at ynni adnewyddadwy nag Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru.
- Er gwaethaf ymrwymiad WCE i gadw ei sylfaen yng Nghymru a'r buddsoddiad sylweddol y mae wedi'i wneud yn yr economi leol trwy fuddsoddi yn ei weithlu a'i swyddfa newydd, cyfran fach iawn o'i bortffolio ynni gwynt ar y tir sy'n dod o'i fuddiannau tir yng Nghymru. Mae gan y cwmni werth dros 700MW o brosiectau sydd naill ai wedi cael eu caniatáu neu sydd yn y system gynllunio yn disgwyl penderfyniad ar hyn o bryd. O'r rhain, mae dros 450MW (64%) yn yr Alban, ac ychydig dros 100MW (tua 14%) yng Nghymru. Ar ben hynny, mae gan y cwmni gyfran llawer uwch o safleoedd yn y cyfnod 'cyn cynllunio' yn yr Alban a Lloegr nag sydd ganddo yng Nghymru ar hyn o bryd. Nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu unrhyw benderfyniad bwriadol gan WCE i osgoi gwneud busnes yng Nghymru (yn wir, i'r gwrthwyneb), yn hytrach tybir bod hyn yn adlewyrchiad

o'r amgylchedd cynllunio mwy positif a hyblyg sy'n bodoli yn yr Alban ar gyfer datblygu ynni gwynt ar y tir.

c) Darparu cyfrifoldeb clir a diamwys dros gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy

- Y **targed ynni adnewyddadwy** yw un o'r prif ffactorau sy'n rheoli defnydd yn y fan a'r lle. I sicrhau bod targed cyffredinol 2020 yn cael ei gyrraedd, tybir y dylid rhoi mwy o bwyslais ar dargedau dros dro blynyddol. Dylid cynyddu'r pwyslais hwn trwy gael cyfrifoldeb Gweinidogaethol dros gyrraedd targedau a monitro cynnydd. Tybir hefyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gyrraedd targedau yn y broses gynllunio a dylai unrhyw ddiffygion mewn targedau dros dro fod yn ystyriaeth arwyddocaol wrth ystyried ceisiadau cynllunio.
- I gefnogi'r rôl hon, dylid rhoi mwy o bwyslais ar dargedau a'u cyrraedd, gan gynnwys cerrig milltir ar hyd y ffordd.

d) Cydnabod arwyddocâd economaidd y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru

- Mae'r sector ynni adnewyddadwy yn un bwysig ac yn un sy'n tyfu yn yr economi. Roedd y sector Nwyddau a Gwasanaethau Carbon Isel yn y DU yn werth £106.5 biliwn yn 2008 – rhagwelwyd twf o 5% y flwyddyn.¹ Yng Nghymru yn unig, amcangyfrifir buddsoddiad o £50 biliwn mewn cynhyrchu trydan carbon isel yn unig dros y 10 – 15 mlynedd nesaf.²
- Roedd tua 800 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y diwydiant ynni gwynt yn unig yng Nghymru yn 2010, disgwylir i'r ffigur hwn dyfu'n gyflym i 1190 erbyn 2012³
- Mae'r gwaith a ddarperir gan y sector hwn yn darparu swyddi crefftus a chyflogau da. Er enghraifft, mae West Coast Energy yn cyflogi 70 aelod o staff yn ei swyddfa yn yr Wyddgrug ac mae'n gyflogwr pwysig yng nngledd-ddwyrain Cymru. Mae West Coast Group wedi buddsoddi dros £270,000 mewn hyfforddi a datblygu staff dros y 5 mlynedd diwethaf;
- Gellir gweld y manteision cyflogaeth i Gymru hefyd yng nghyfleuster cynhyrchu tyrbinau gwaith dur strwythurol Bevil Mabey yng Nghymru a agorwyd yn ffurfiol gan Charles Hendry, Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, ar 12 Mai 2011 fel rhan o fuddsoddiad gwerth £38 miliwn Mabey Bridge yn y sector ynni adnewyddadwy. Golyga hyn mai Mabey Bridge yw'r unig gynhyrchydd tyrau tyrbinau gwynt a monopolau sy'n gynhenid o'r DU. Mae'r cyfleuster hynod awtomataidd 25,000 metr sgwâr hwn yn cynhyrchu hyd at 300 o dyrau tyrbinau gwynt y flwyddyn, pob un hyd at 120m o uchder. Rhoddodd y ffatri hwb calonogol i'r economi leol, gan greu 240 o swyddi crefftus newydd.
- Mae'r manteision economaidd hyn yn arwyddocaol i Gymru a byddant yn parhau i fod yn arwyddocaol yn y sector twf economaidd mawr hwn. Dylid rhoi mwy o bwys ar fanteision economaidd fel hyn a rhoi ystyriaeth berthnasol iddynt yn ystod y broses benderfynu;

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru (Gorffennaf 2009) 'Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru'

² Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) 'Gwireddu'r Potensial'

³ Arad Consulting / Renewable-UK (2010) 'Gwerth Economaidd Ynni Gwynt i Gymru'

5. West Coast Energy: Dyheadau a chyfleoedd yng Nghymru

- 5.1 Er mwyn parhau i dyfu a ffynnu, mae West Coast Energy yn anelu at ddatblygu a buddsoddi yng Nghymru ac mae'r cwmni'n credu bod llawer o gyfleoedd i fuddsoddi ymhellach.
- 5.2 Ychydig o fuddiannau tir sydd gan West Coast Energy yn yr ardaloedd chwilio strategol ac felly mae'r cwmni'n bwriadu canolbwyntio ar gynlluniau bach a chanolig y tu allan i'r ardaloedd chwilio strategol. Byddai nifer o'r cynlluniau hyn yn cael eu darparu gydag elfen gymunedol gref.
- 5.3 Gallai cynigion fel hyn wneud cyfraniad gwerthfawr i dargedau ynni adnewyddadwy Cymru, yr economi a gallai hefyd fod o fudd mawr i gymunedau. Fodd bynnag, tybir bod angen i'r polisi a fframwaith rheoleiddio fod yn fwy pendant ar gyfer datblygu mewn ardaloedd tebyg. Mae hyn yn ymwneud â'r pwynt a wnaethpwyd eisoes ynglŷn â'r angen i gael hyblygrwydd daearyddol a pheidio â dibynnu'n gyfan gwbl ar safleoedd chwilio strategol.

6. Casgliad

- 6.1 Mae gan Lywodraethau'r DU a Chymru dargedau ynni adnewyddadwy uchelgeisiol cyfiawn. Mae lleoliad Cymru yn ei rhoi mewn sefyllfa dda i reoli cyfoeth o adnoddau adnewyddadwy a chyfrannu at dargedau rhyngwladol a chenedlaethol.
- 6.2 Mae'r ymateb hwn yn amlygu rôl West Coast Energy fel cwmni o Gymru yn y sector ynni gwynt ar y tir i gyfrannu at gyrraedd y targedau hyn. Mae hefyd yn tynnu sylw at y manteision economaidd mawr y gall ffermydd gwynt ar y tir eu darparu i Gymru. Mae'r sector hwn hefyd yn buddsoddi'n sylweddol yn y gymuned.
- 6.3 Mae'r ymateb hwn yn nodi mai un o'r prif ffactorau sy'n darparu ynni adnewyddadwy megis ffermydd gwynt ar y tir yw polisi a fframwaith rheoleiddio **positif, cyson ac amserol**. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymdrechu i wneud hyn ac wedi llwyddo mewn rhai meysydd, mae rhai rhwystrau i'w goresgyn o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys targedau aneglur, ynghyd â diffyg monitro targedau a diffyg pwyslais ar dargedau wrth ddod i benderfyniadau cynllunio yn ymwneud â defnydd tir. Mae diffyg eglurdeb hefyd am rôl safleoedd ffermydd gwynt y tu allan i'r ardaloedd chwilio strategol wrth gyrraedd y targedau yn ogystal â materion strategol allweddol megis sefydlu seilwaith grid wedi'i gynllunio'n effeithiol. I gymhlethu'r materion hyn, mae awdurdodau cynllunio lleol ac ymgylgoreion statudol yn defnyddio dulliau gweithio anghyson yn y broses gynllunio, ac nid ydynt bob amser yn adlewyrchu'r angen cenedlaethol am ynni adnewyddadwy.
- 6.4 Gall y berthynas afreolaidd rhwng y Comisiwn Cynllunio Seilwaith a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu fframwaith polisi ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy arwain at ddryswch a chymhlethu'r problemau hyn. Yn olaf, tybir bod diffyg pwyslais ar dargedau a monitro cynnydd tuag at gyrraedd y targedau.
- 6.5 I fynd i'r afael â'r problemau hyn, mae West Coast Energy yn gwneud ambell i awgrym yn yr ymateb hwn. Mae'r rhain yn cynnwys materion megis: darparu mwy o hyblygrwydd ym maes ardaloedd chwilio strategol yn Nodyn Cyngor Technegol 8; dilyn esiampl Llywodraeth yr Alban o arwain ac ymgrychu dros ddefnyddio ynni adnewyddadwy; rhoi mwy o bwyslais ar

dargedau a monitro dros dro'r cynnydd a wneir tuag at gyrraedd y targedau hynny - gan gynnwys mewn penderfyniadau cynllunio defnyddio tir a mwy o gyfrifoldeb Gweinidogaethol er mwyn cyrraedd y targedau; a rhoi pwyslais ar fanteision economaidd ynni adnewyddadwy / ynni gwynt ar y tir i Gymru. Efallai mai'r prif angen yw i'r haenau penderfynu amrywiol dynnu yn yr un cyfeiriad - mae hyn yn cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r ymgylchoreion statudol amrywiol.

ADRAN B: Cyfeiriad penodol at gylch gorchwyl drafft yr Ymchwiliad Ynni

Beth yw'r goblygiadau i Gymru os bydd y cyfrifoldeb dros ganiatáu prosiectau seilwaith ynni ar y tir ac ar y môr yn parhau i fod yn fater sy'n cael ei gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU?

Sut mae hyn yn effeithio ar gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy, fel y'u nodir yn y Datganiad Polisi Ynni?

Sut mae hyn yn effeithio ar gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gael gostyngiad o 3 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn o 2011 ymlaen?

Fel y disgrifir yn Adran A Paragraff 2, uchod, tybir mai un o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar ddefnyddio ynni adnewyddadwy'n effeithiol a chyrraedd targedau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yw fframwaith polisi positif a chyson. Dylai hwn fod yn brif amcan p'un a yw'r penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y DU neu Gymru.

Gydag arweinyddiaeth gadarn a pholisïau clir gan Lywodraeth y DU a Chymru, awdurdodau lleol ac ymgylchoreion statudol, gellir cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn Strategaeth Ynni a Pholisi Cynllunio Cymru. Tybir bod angen i sawl sefydliad gyfathrebu'n fwy 'cydgyssylltiedig' ar y polisi ynni, p'un a yw'r broses benderfynu'n aros gyda Llywodraeth y DU neu'n cael ei datganoli.

Sut all Llywodraeth Cymru sicrhau fod yr holl benderfyniadau caniatáu ar gyfer prosiectau seilwaith mawr a datblygiadau cysylltiedig yn cael eu gwneud yn unol â pholisi cynllunio Cymru?

Ni ellir gwarantu hyn o dan y fframwaith presennol heb ddatganoli rhagor o bŵer. Os mai Llywodraeth y DU fydd yn parhau i wneud y penderfyniadau, dylid sicrhau fod rôl Nodyn Cyngor Technegol 8 a Pholisi Cynllunio Cymru yn fwy eglur er mwyn osgoi gwrthdaro a dryswch. Dylai hyn gynnwys datganiad clir ym mholisi Llywodraeth y DU (h.y. yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol) ynglŷn â beth yn union yw rôl Nodyn Cyngor Technegol 8, Polisi Cynllunio Cymru a pholisi ynni Cymru yn y broses benderfynu.

Materion allweddol

Efallai y dymunai'r Pwyllgor ystyried y materion canlynol fel rhan o'r cylch gorchwyl:

Rôl y gwahanol asiantaethau caniatadau, y modd y maent yn rhyng-gysylltu a sut y gellid gwella'r system bresennol, boed hynny trwy ddatganoli ymhellach neu beidio (*Comisiwn Cynllunio Seilwaith, Arolygiaeth Gynllunio, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Llywodraeth Cymru, Y Sefydliad Rheoli Morol, Asiantaeth yr Amgylchedd*).

Y berthynas rhwng Datganiadau Polisi Cenedlaethol Ynni Llywodraeth y DU a pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol Cymru (gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 8 a Chynlluniau Datblygu Lleol) a p'un a yw'r polisïau hyn yn gallu cyflawni'r dyheadau gofynnol.

Y dadleuon o blaid ac yn erbyn y cyfyngiad uchaf o 100 Megawat ar gyfer caniatadau datganoledig.

Mae llwyddiant parhaus y defnydd o ynni adnewyddadwy a'r diwydiant ynni adnewyddadwy yn yr Alban yn ddadl ysgogol dros ddatganoli ymhellach yng Nghymru – gweler paragraff 4.1 (b) yn Adran A uchod. Fodd bynnag, fel yr esboniwyd yn Adran A, nid y ffaith fod gan yr Alban fwy o bwerau datganoledig yn unig sy'n gyfrifol am lwyddiant cymharol uwch y polisi ynni adnewyddadwy yno. Mae hefyd yn seiliedig ar arweinyddiaeth gadarn a pholisi clir i gyrraedd y targedau.

Cymharu â deddfwrfeydd datganoledig eraill (mae'r Alban wedi datganoli cyfrifoldeb ar wahân i niwclear, mae gogledd Iwerddon wedi datganoli cyfrifoldeb gan gynnwys niwclear).

Cyfraniad posibl a'r tebygrwydd y bydd gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy (*ynni gwynt ar y môr, ynni llanwol, ynni gwynt ar y tir, ynni dŵr, niwclear, bio-ynni/gwastraff, microgynhyrchu, prosiectau ynni cymunedol*) yn gallu cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni fel y nodir yn *Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru*.

Cyfraniad posibl y gwahanol fathau hyn o ynni adnewyddadwy i gyrraedd targed blynyddol Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr.

Mae ynni gwynt yn dechnoleg aeddfed sy'n gallu cyrraedd targedau Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru ac sydd â'r potensial i'w rhagori. Fel pob technoleg ynni adnewyddadwy, mae angen datblygu a buddsoddi yn y seilwaith grid cynhaliol ar frys er mwyn medru cyrraedd y targedau.

Mae technoleg amrediad llanw a ffrwd llanw/tonnau yn dechnoleg cymharol newydd, ac yn gyffredinol nid wedi'i brofi'n weithredol ar raddfa fasnachol. Ar y wyneb, ymddengys fod targed o 8.5GW ar gyfer amrediad llanw erbyn 2022 a 4GW o ffrwd llanw erbyn 2025 yn uchelgeisiol. Dylid monitro'r dechnoleg hon yn fanwl ac os ymddengys na fydd yn cael ei datblygu mewn pryd i gyrraedd y targedau, efallai y bydd gofyn i fathau eraill o dechnoleg ddigolledu'r diffygion.